# Cylchlythyr CorCenCC

# Rhifyn 10: Mawrth 2017

CorCenCC
Corpws Cenedlaethol Cymraeg Cyfoes
National Corpus of Contemporary Welsh



## Cyfarchion gan y Prif Ymchwilydd

*Croeso i ddegfed rhifyn cylchlythyr CorCenCC. Mae'r rhifyn hwn yn nodi blwyddyn gyfan o waith ar brosiect CorCenCC – ac am flwyddyn hefyd! Allweddair dau fis diwetha'r prosiect oedd 'lansiad'. Ers ein rhifyn diwethaf, rydyn ni wedi lansio ap torfoli CorCenCC, gwefan prosiect CorCenCC ar ei newydd wedd (yn y pendraw, bydd y corpws yn cael ei leoli ar y wefan hon), a chynnal lansiad cyhoeddus y prosiect yn Adeilad y Pierhead yng Nghaerdydd. Dim llaesu dwylo o gwbl! Yn rhifyn hwn y cylchlythyr, byddwn ni'n adrodd ar bob un o'r lansiadau hyn a byddwn ni hefyd yn cyflwyno aelod arall o deulu estynedig CorCenCC – sef Cyd-Ymchwilydd ar y prosiect, Irena Spasić.*

*Yn rhifynnau 8 a 9, rhoddon ni fanylion am y 'fframwaith samplo' (h.y. cynlluniau casglu data ar gyfer y corpws), gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar e-iaith (rhifyn 8) ac wedyn ar iaith lafar (rhifyn 9), fel ffordd o roi gwell syniad i chi o'r gwahanol fathau o ddata sy'n mynd i gael eu cynnwys yn CorCenCC, a thynnu sylw at y ffaith ein bod ni'n gobeithio casglu'r data yma gan siaradwyr o bob ardal, oedran a chefndir ieithyddol. Yn y cylchlythyr hwn, rydyn ni'n troi ein sylw at yr iaith ysgrifenedig. Gobeithio bydd hyn yn rhoi darn olaf y jig-so i chi, gan amlinellu 'darlun ehangach' o'r prosiect, ac yn eich temtio i gymryd rhan a chyfrannu'ch Cymraeg chi!*

*Mwynhewch! Dr Dawn Knight (Prifysgol Caerdydd)*

## Newyddion

***10/02/2017 – Lansio gwefan prosiect CorCenCC***

Mae gwefan swyddogol prosiect CorCenCC newydd gael ei lansio! Mae'r safle hon ar gyfer y cyhoedd a bydd hi'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd y prosiect, manylion am weledigaeth y gwaith a'r tîm sydd ynghlwm, a bydd hi'n ateb unrhyw gwestiynau a all fod gan gyfranogwyr am y prosiect. Hefyd, yn y pen draw, bydd y safle yn rhoi mynediad i'r corpws, h.y. bydd y safle yn galluogi defnyddwyr i fynd at offer chwilio'r corpws a'r pecyn cymorth pedagogaidd. Ewch i www.corcencc.cymru i weld y wefan.





***17/02/2017 – Lansio Ap Torfoli CorCenCC***

I gyd-fynd â lansiad y wefan, lansiwyd fersiwn gyntaf ap torfoli CorCenCC ym mis Chwefror. Ar hyn o bryd mae'r ap ar gael ar iOS a bydd fersiwn Android yn cael ei rhyddhau o fewn y ddau-pedwar mis nesaf (cofiwch wylio am hynny!). Mae'r ap yn hawdd ei ddefnyddio ac ar gael yn rhad ac am ddim. Er mwyn ei lawrlwytho nawr, defnyddiwch y cod QR yma neu dilynwch y ddolen i'r App Store: http://itunes.apple.com/gb/app/ap-torfoli-corcencc/id1199426082

Rhoddwyd sylw i'r newyddion am lansio'r ap ar wefannau pob un o sefydliadau partneriaid y prosiect, ar wefannau technegol ac yn *Y Cymro* a'r *Denbighshire Free Press* (ymhlith eraill). Trwy ledu'r gair am yr ap a'r

prosiect, ein gobaith yw codi ymwybyddiaeth pobl am bwysigrwydd a gwerth y gwaith a sicrhau bod cymaint o bobl ag sy'n bosibl yn cyfrannu data a/neu yn defnyddio'r corpws pan fydd wedi cael ei adeiladu.

***28/02/2017 – Lansio'r prosiect***




Er mwyn dathlu llwyddiant 12 mis cynta'r prosiect, cynhaliodd tîm CorCenCC ddigwyddiad lansio yn Adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd. Gydag ymgyrch sylweddol ar y cyfryngau wrth gefn, gan gynnwys cyfweliadau radio ar raglen *Good Morning Wales* y BBC (Prif Ymchwilydd Dawn Knight) a rhaglen *Post Cyntaf* BBC Radio Cymru (Llysgennad Nia Parry) a sylw yn y wasg brintiedig ac ar-lein mewn nifer o leoedd (gan gynnwys y BBC a'r Mail Online, gwefannau sefydliadau a blogiau technoleg, ymysg eraill), bwriad y digwyddiad oedd gweithredu fel sbardun i ymgysylltu â'r cyhoedd, llunwyr polisi, addysgwyr, cyhoeddwyr a'r cyfryngau; gan godi ymwybyddiaeth o'r prosiect ac annog unigolion i gefnogi'r gwaith.



*Alun Davies, Steve Morris, Dawn Knight, Bethan Jenkins a Tess Fitzpatrick*

Roedd Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn y lansiad, ac roedd y lansiad yn gyfle i ymwelwyr ddod i wybod mwy am y prosiect. Mae'r prosiect ar y cyd rhwng prifysgolion Caerdydd, Abertawe, Caerhirfryn a Bangor yn torri tir newydd wrth greu corpws o Gymraeg cyfoes ar raddfa fawr a fydd yn agored i bawb. Mae''n cael ei gefnogi gan lysgenhadon enwog – y bardd Damian Walford Davies, y cerddor a'r gyflwynwraig Cerys Matthews, y ddarlledwraig Nia Parry a'r dyfarnwr rygbi rhyngwladol Nigel Owens. Prosiect cymunedol yw hwn sy'n defnyddio technolegau ffonau symudol a digidol i alluogi'r cyhoedd i gymryd rhan. Yn y digwyddiad, cafwyd cyfle i weld ap casglu data newydd a fydd yn galluogi siaradwyr Cymraeg o bob cefndir i gyfrannu at y prosiect. Yn ogystal, rhannodd partneriaid a llysgenhadon CorCenCC eu hargraffiadau o sut y bydd CorCenCC yn effeithio ar eu hymchwil a'r gymuned Gymraeg yn ehangach.



*Tîm CorCenCC*

Meddai Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: "Pleser o'r mwyaf yw bod yma heddiw ar gyfer y prosiect cyffrous hwn. Bydd y gwaith hwn yn rhoi cofnod go iawn i ni o sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn gwirionedd ac yn ein helpu i ddatblygu rôl y Gymraeg mewn technoleg. Bydd hyn yn hollbwysig os ydym am gyrraedd ein targed o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050."

Roedd tua 85 o bobl yn y lansiad ar y noson, a dyma'r troi cyntaf i fwyafrif tîm estynedig CorCenCC fod gyda'i gilydd yn yr un lle! Noddwyd y lansiad gan gronfeydd y Cyngor Prydeinig, Yr Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, a Sefydliad Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau ym Mhrifysgol Abertawe – llawer o diolch am eich cefnogaeth!

***01/03/17 – Cyfarfod Tîm Cyfan y Prosiect***

Ddiwrnod ar ôl y lansiad, cynhalion ni gyfarfod cyntaf Tîm Cyfan y Prosiect ym Mhrifysgol Caerdydd ar Ddydd Gŵyl Ddewi. Mae'r cyfarfod, a gynhelir yn flynyddol, yn dod â Thîm Prosiect CorCenCC (TPC – sy'n cynnwys y Prif Ymchwilydd, pob un o'r Cyd-Ymchwilwyr, y Cynorthwywyr Ymchwil a'r myfyrwyr PhD), Ymgynghorwyr a phob aelod o Grŵp Ymgynghorol y Prosiect at ei gilydd ac yn gyfle gwych i'r tîm ddod i nabod ei gilydd yn well (wyneb yn wyneb) a thrafod syniadau a chynlluniau'r dyfodol. Nod y cyfarfod oedd rhoi diweddariadau penodol ar bob pecyn gwaith, ystyried a thrafod llwybrau posibl o ran ymgysylltu â'r prosiect (gan ganolbwyntio ar fewnbwn gan Grŵp Ymgynghorol y Prosiect yn bennaf) a meddwl am y ffyrdd gorau i ni wthio'r ffiniau mewn ymchwil corpws cyfredol gyda datblygiadau ar CorCenCC yn y dyfodol.

Hoffen ni ddiolch yn fawr iawn i bob un ohonoch chi a deithiodd o bell ac o agos er mwyn mynychu'r cyfarfod hwn – roedden ni i gyd yn meddwl bod y cyfarfod yn un llwyddiannus a dymunol sy'n debygol o roi i ni gryfder ychwanegol o ran syniadau a chymhelliant i danio'r camau nesaf wrth i'r prosiect ddatblygu. Rydyn ni'n edrych ymlaen at eich croesawu chi i gyd yn ôl i Gaerdydd ar gyfer y cyfarfod yn 2018!





## Rho dy Gymraeg i ni: Ffocws ar iaith ysgrifenedig

Fel y gwyddoch, un o amcanion allweddol prosiect CorCenCC yw creu corpws sy'n gytbwys ac sy'n adlewyrchu'r holl ffyrdd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio o ddydd i ddydd yn y byd 'go iawn'. Mae hyn yn golygu y bydd y corpws yn cynnwys iaith o ystod o fathau gwahanol, yn trafod pynciau gwahanol, gan wahanol gyfranwyr o bob cefndir. Bydd pedair miliwn o'r deg miliwn o eiriau y gobeithiwn eu casglu yn dod o ffynonellau ysgrifenedig.

Mae 'cydbwysedd' a 'chynrychioldeb' – dau o faterion craidd dylunio corpora – yn cyfeirio at ein cynlluniau i greu corpws sydd wir yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yng Nghymru heddiw. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid ystyried awduron a darllenwyr deunydd ysgrifenedig Cymraeg, gan fod 'defnydd' o'r iaith Gymraeg yn cynnwys derbyn yr iaith (h.y. ei chlywed a'i darllen) yn ogystal â'i chynhyrchu. Does dim un ffynhonnell sy'n rhoi gwybodaeth ddigonol ar ei phen ei hunan er mwyn bod yn sail i strategaeth samplo ar gyfer deunydd sydd wedi'i gyhoeddi. Dyw ffigurau gwerthu ddim o reidrwydd yn adlewyrchu darllenyddiaeth yn dda, ac maen nhw'n anwybyddu'r rôl mae llyfrgelloedd benthyca yn ei chwarae. Hefyd, mae prinder ymchwil ar batrymau ac arferion darllen iaith Gymraeg. Felly, mae defnyddio data cyhoeddi yn ymddangos yn fwyaf priodol o ran hysbysu'r fframwaith samplo ar gyfer Cymraeg ysgrifenedig. Yn benodol, mae'r llyfrau sydd mewn print ar hyn o bryd yn rhoi rhyw arwydd o'r darllenwyr y tu hwnt i'r ffigurau cyhoeddi go iawn ac, yn y cyd-destun Cymraeg, mae gwybodaeth gyhoeddi ddiweddar a dibynadwy o fewn cyrraedd hwylus. O'r herwydd, rydyn ni wedi defnyddio'r data hyn i'n harwain ni wrth sefydlu'r fframwaith samplo ar gyfer deunydd sydd wedi'i gyhoeddi. Ynghylch awduraeth, mae'n debyg bod ceisio sicrhau cydbwysedd ar draws awduron y tu hwnt i derfynau'r prosiect hwn, yn enwedig o ran lleoliad yr awduron, ond rydyn ni *yn* gobeithio cyflawni cydbwysedd o ran rhyw. Lle bo modd, rydyn ni hefyd yn gobeithio cofnodi gwybodaeth ynglŷn â chefndir ieithyddol yr awduron fel rhan o'r metadata, gan y gallai hyn fod yn ddefnyddiol i ymchwilwyr y dyfodol. Yn ogystal â deunydd sydd wedi'i gyhoeddi, rydyn ni'n cynllunio casglu deunyddiau sydd wedi'u hysgrifennu gan

unigolion a chwmnïau/sefydliadau, a.y.b., unwaith eto er mwyn adlewyrchu'r amryw ffyrdd y mae'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd.

Mae'r fframwaith samplo ar gyfer data ysgrifenedig isod. Eto, dim ond canllaw yw hwn ar gyfer yr hyn yr hoffen ni ei gasglu – 'delfryd'. Mewn gwirionedd mae'n debyg y bydd dosbarthiad y data yn CorCenCC yn eitha gwahanol o'i gymharu â hwn, ond mae'n gweithredu fel man cychwyn/sail ddefnyddiol i ni adeiladu arno. Mynnwch gip arno ac, os ydych chi am gyfrannu unrhyw rai o'r mathau hyn o ddata iaith i'r corpws, cysylltwch â ni! **Mae dwy brif ffordd i chi gyfrannu data iaith ysgrifenedig: (1) cysylltu â ni i ddarganfod pryd bydd cynorthwywyr ymchwil CorCenCC yn eich ardal chi er mwyn iddyn nhw gasglu eich iaith ysgrifenedig mewn person, neu (2) anfonwch eich iaith ysgrifenedig aton ni drwy e-bost** (mae dogfennau Microsoft Word/Publisher/Powerpoint yn ddelfrydol, ond os oes gennych chi iaith sydd wedi'i hysgrifennu â llaw mae croeso i chi dynnu llun ohoni ac anfon hynny aton ni). D.S. Gan mai corpws Cymraeg *cyfoes* yw hwn, byddai'n well gyda ni ddogfennau a gafodd eu hysgrifennu o 2011 ymlaen. Diolch!

| Cyfrwng | Genre | Is-genre | % | Geiriau |
|---|---|---|---|---|
| | | **Llyfrau** | **40.75%** | **1,630,000** |
| **Llyfrau i Oedolion** | Ffuglen | Drama | 1.25% | 50,000 |
| | | Barddoniaeth | 2.5% | 100,000 |
| | | Rhyddiaith | 6.25% | 250,000 |
| | Eisteddfod | Cyfansoddiadau a beirniadaethau'r Eisteddfod Genedlaethol | 1.25% | 50,000 |
| | Ffeithiol | Dyniaethau, Celfyddydau | 0.5% | 20,000 |
| | | Gwyddoniaeth Naturiol, Meddygaeth, Gwyddor Gymdeithasol | 0.5% | 20,000 |
| | | Cyfraith, Gwleidyddiaeth, Addysg | 0.25% | 10,000 |
| | | Economeg, Busnes, Mathemateg, Cyfrifeg | 0.25% | 10,000 |
| | | Teithio, Twristiaeth | 0.25% | 10,000 |
| | | Hamdden, Coginio, Posau | 1% | 40,000 |
| | | Cymru, Hanes lleol, Arferion gwlad | 1% | 40,000 |
| | | Cofiannau, Hunangofiannau | 6% | 240,000 |
| | Iaith | Gramadeg, Iaith, Geiriaduron | 0.5% | 20,000 |
| | Caneuon/Emynau | Caneuon, Emynau | 0.5% | 20,000 |
| **Llyfrau i Blant** | Ffuglen | Drama | 1.25% | 50,000 |
| | | Barddoniaeth | 1.25% | 50,000 |
| | | Rhyddiaith: uwchradd | 1.75% | 70,000 |
| | | Rhyddiaith: cynradd a meithrin | 1.25% | 50,000 |
| | Eisteddfod (Urdd) | Cyfansoddiadau Eisteddfod yr Urdd | 1.25% | 50,000 |
| | Ffeithiol | Llyfrau cwrs | 1.25% | 50,000 |
| | | Ffeithiol: uwchradd | 1.25% | 50,000 |
| | | Ffeithiol: cynradd a meithrin | 1.25% | 50,000 |
| | Iaith | Gramadeg, Iaith, Geiriaduron | 0.25% | 10,000 |
| | Caneuon/Emynau | Caneuon, Hwiangerddi, Emynau | 0.5% | 20,000 |
| **Llyfrau i Ddysgwyr o Oedolion** | Ffuglen | Ffuglen: amrywiol | 1.25% | 50,000 |
| | Ffeithiol | Ffeithiol: amrywiol | 1.25% | 50,000 |
| | | Llyfrau cwrs | 1.25% | 50,000 |
| | Iaith | Gramadeg, Iaith, Geiriaduron | 0.25% | 10,000 |
| **Llyfrau i Ddysgwyr Ifanc** | Ffuglen | Ffuglen: uwchradd | 0.75% | 30,000 |
| | | Ffuglen: cynradd a meithrin | 0.25% | 10,000 |
| | Ffeithiol | Llyfrau cwrs | 0.75% | 30,000 |
| | | Ffeithiol: uwchradd | 0.75% | 30,000 |
| | | Ffeithiol: cynradd a meithrin | 0.75% | 30,000 |
| | Iaith | Gramadeg, Iaith, Geiriaduron | 0.25% | 10,000 |

| Cylchgronau, Papurau Newydd, Cyfnodolion | | 19.25% | 770,000 |
|---|---|---|---|
| **Papurau Bro** | Papurau Bro | 10% | 400,000 |
| **Cyfnodolion** | Academaidd, Celfyddydau, Cerddoriaeth, Llenyddiaeth | 1.75% | 70,000 |
| **Cylchgronau/Cylchlythyrau Cymdeithasau** | Celfyddydau, Cerddoriaeth, Llenyddiaeth<br>Natur<br>Gwyddoniaeth<br>Amaethyddiaeth<br>Menywod<br>Crefydd | 1.75% | 70,000 |
| **Papurau Newydd** | Misol | 1.25% | 50,000 |
| **Cylchgronau i Oedolion** | Materion cyfoes: wythnosol | 1.25% | 50,000 |
| | Materion cyfoes: misol | 1.25% | 50,000 |
| **Cylchgronau i Blant** | Uwchradd | 0.5% | 20,000 |
| | Cynradd | 0.5% | 20,000 |
| **Cylchgronau i Ddysgwyr o Oedolion** | Dysgwyr: oedolion | 0.5% | 20,000 |
| **Cylchgronau i Ddysgwyr Ifanc** | Dysgwyr: plant (cynradd ac uwchradd) | 0.5% | 20,000 |

| Deunydd amrywiol | 40% | 1,600,000 |
|---|---|---|
| **Llythyrau a Dyddiaduron** | 5% | 200,000 |
| **Llythyrau Ffurfiol** | 5% | 200,000 |
| **Traethodau Academaidd, Sgriptiau Arholiadau** | 5% | 200,000 |
| **Hysbysebion** | 2.5% | 100,000 |
| **Pamffledi gwybodaeth, Dogfennau gwleidyddol, Dogfennau cyfreithiol** | 6.25% | 250,000 |
| **Storïau** | 10% | 400,000 |
| **Arwyddion** | 1.5% | 60,000 |
| **Arall** | 4.75% | 190,000 |
| | **100%** | **4,000,000** |

## Cwrdd â'r tîm

*Bob mis byddwn yn rhoi sylw i aelod gwahanol o'r tîm CorCenCC estynedig yn ein cylchlythyr. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bawb ddweud ychydig wrthych chi am eu cefndir; beth maen nhw'n dymuno ei weld gan CorCenCC a sut maen nhw'n credu y gallai gyfrannu at eu gwaith eu hunain, neu yn fwy cyffredinol, at waith eraill yng Nghymru. Y mis yma mae'r sbotolau ar yr Athro Irena Spasić, sy'n Gyd-Ymchwilydd ar brosiect CorCenCC ym Mhrifysgol Caerdydd.*

***Proffil: Yr Athro Irena Spasić***



Waeth i ni ddechrau defnyddio hoff ymadrodd Monty Python i gyflwyno aelodau o'r tîm, "*and now for something completely different*". Mae fy ngyrfa wedi dilyn llwybr eithaf rhesymegol heb unrhyw newid cyfeiriad annisgwyl. Dechreuais astudio cyfrifiadureg yn yr ysgol uwchradd, a dyna wnaeth fy rhoi ar ben ffordd. Cefais radd cyfrifiadureg o Ysgol Mathemateg Prifysgol Belgrade yn Serbia. Yma y clywais am Noam Chomsky, tad ieithyddiaeth fodern, am y tro cyntaf. Wrth edrych yn ôl, sbardunwyd fy niddordeb hir mewn prosesu iaith naturiol gan y syniad hwn bod modd defnyddio mathemateg er mwyn modelu iaith naturiol. Yn ystod fy nghwrs meistr, roeddwn i'n clywed o hyd am syniadau Zellig Harris a'i waith ar ddadansoddi is-ieithoedd. Nid syndod, felly, fy mod i wedi dewis pwnc ar y trywydd hwn ar gyfer fy nhraethawd ymchwil ac ymchwilio i sut y gallwn ddefnyddio iaith naturiol i ryngwynebu â chronfa ddata. Roedd hyn yn plethu dau o'm hoff bynciau – cronfeydd data a phrosesu iaith naturiol. I barhau â'm

hymchwil ar y trywydd hwn, symudais i'r DU i wneud fy PhD a oedd hefyd yn edrych ar brosesu iaith naturiol. Dyma lle dechreuodd fy ymagwedd tuag at brosesu iaith naturiol symud oddi wrth ddulliau sy'n seiliedig ar reolau symbolaidd tuag at ddysgu peirianyddol.

Ar ôl graddio o Brifysgol Salford ym Manceinion Fwyaf, dechreuais wneud gwaith ôl-ddoethurol ym Mhrifysgol Manceinion. Ymunais â thîm rhyngddisgyblaethol dan arweiniad yr Athro Douglas Kell i ddatblygu rhaglenni cloddio testunau a chronfeydd data mewn bioleg. Mae gan fioleg a gwyddorau bywyd yn gyffredinol un o'r cymunedau cloddio testunau mwyaf ac maent wedi gyrru ymchwil yn y maes hwn dros y ddau ddegawd diwethaf. Roedd hwn yn gyfle gwych i ddysgu sut i gyfathrebu â phartneriaid sy'n defnyddio amrywiaeth o is-ieithoedd eu hunain... a sut i'w dadansoddi'n awtomatig (Zellig Harris unwaith eto!). Fel y dywedais eisoes, ni fu erioed unrhyw newid cyfeiriad annisgwyl yn fy ngyrfa. Arweiniodd un peth at y llall, ac yn y diwedd dechreuais ddarlithio ym Mhrifysgol Caerdydd. Gan fod y swydd wedi'i chreu yn benodol er mwyn annog cydweithio rhyngddisgyblaethol rhwng cymunedau gwyddonol eraill, fe wnaeth fy nenu ati.

Mae fy ngyrfa academaidd wedi canolbwyntio'n bennaf ar ragori mewn ymchwil sy'n ymwneud â chloddio testunau. Mae hyn yn allweddol ar gyfer deall y prif ymyriadau a gwneud penderfyniadau wrth ymdrin â data mawr. Mae hyn yn hanfodol i ddisgyblaethau eraill ac wedi arwain at gydweithio rhyngddisgyblaethol llwyddiannus iawn. Mae wedi arwain at gael traweffaith ym meysydd y tu hwnt i gyfrifiadureg a gwybodeg yn ogystal â datblygiadau yn fy nisgyblaeth fy hun. Rwyf wedi cydweithio ag Ysgolion Gwyddorau Gofal Iechyd, Meddygaeth, Biowyddorau, Seicoleg a Gwyddorau Cymdeithasol. Felly, pan ofynnodd Dawn i mi gydweithio ar brosiect CorCenCC, manteisiais ar y cyfle i weithio ar ddau o'm hoff bynciau – prosesu iaith naturiol a chronfeydd data. Rwy'n llwyr werthfawrogi effeithiau technolegau o'r fath ar gefnogi hunaniaeth genedlaethol. Yn ôl arolwg diweddar gan *Pew Research Centre,* mae iaith yn cael ei gweld fel un o amodau pwysicaf hunaniaeth genedlaethol. Mae'r gallu i recordio iaith wrth iddi ddatblygu drwy ddefnyddio dulliau torfoli ac i ddefnyddio corpws o'r fath er mwyn cefnogi caffael iaith yn gam cwbl arloesol. Rwy'n mwynhau bod yn rhan o'r prosiect yn fawr.

***Irena Spasić,*** SpasicI@caerdydd.ac.uk

## CorCenCC ar-lein

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r prosiect hefyd ar gael drwy Facebook www.facebook.com/CorCenCC/; Twitter https://twitter.com/corcencc (gallwch ein trydar @CorCenCC). Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy anfon neges i gyfeiriad ebost y prosiect: corcencc@caerdydd.ac.uk neu ewch i'n gwefan newydd, sef: www.corcencc.cymru

Mae CorCenCC yn brosiect ymchwil a ariennir gan ESRC/AHRC (Grant Rhif ES/M011348/1). Mae tîm CorCenCC yn cynnwys y **Prif Ymchwilydd** - Dawn Knight; **y Cyd-Ymchwilwyr** - Tess Fitzpatrick, Steve Morris, Irena Spasić, Paul Rayson, Enlli Thomas, Mark Stonelake a Jeremy Evas; **y Cynorthwywyr Ymchwil** - Steven Neale, Jennifer Needs, Mair Rees, Scott Piao a Gareth Watkins; **y myfyriwr PhD** - Vigneshwaran Muralidaran; **Ymgynghorwyr** - Kevin Donnelly, Kevin Scannell, Laurence Anthony, Tom Cobb, Michael McCarthy a Margaret Deuchar; **Grŵp Ymgynghorol y Prosiect** - Colin Williams, Karen Corrigan, Llion Jones, Maggie Tallerman, Mair Parry-Jones, Gwen Awbery, Emyr Davies (CBAC-WJEC), Gareth Morlais (Llywodraeth Cymru), Owain Roberts (Llyfrgell Genedlaethol Cymru), Aran Jones (Saysomethingin.com) ac Andrew Hawke (Geiriadur Prifysgol Cymru).

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am gynnwys y cylchlythyr hwn, cysylltwch â Dr Dawn Knight: KnightD5@caerdydd.ac.uk